Rhaglen Gyflawn

# Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
# North Wales Economic Ambition Board

Cyfarfod

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD GWENER, 10FED RHAGFYR, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol – Zoom**
***i gael mynediad cyhoeddus – cysylltwch a ni***

Pwynt Cyswllt


**Annes Sion**

**01286 679490**

**AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru**


(Dosbarthwyd 3 Rhagfyr 2021)

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Hugh Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ian B. Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Dyfrig L. Siencyn | Cyngor Gwynedd |
| Charlie McCoubrey | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

## Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dafydd Evans | Grwp Llandrillo Menai |
| Maria Hinfelaar | Prifysgol Glyndwr |
| Yana Williams | Coleg Cambria |
| Askar Sheibani | Bwrdd Cyflenwi Busnes |
| Yr Athro Iwan Davies | Prifysgol Bangor |

## Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Annwen Morgan | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iwan Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Neal Cockerton | Cyngor Sir y Fflint |
| Dafydd Gibbard | Cyngor Gwynedd |
| Ian Bancroft | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dafydd L. Edwards | Swyddog Adran 151 |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |
| Alwen Williams | Cyfarwyddwr Portffolio |
| Hedd Vaughan Evans | Rheolwr Gweithredol |
| Sheryl Le Bon Jones | Uwch Swyddog Gweithredol Dros Dro |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL 5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 22 Hydref, 2021 fel rhai cywir.

## 5. FFRAMWAITH ECONOMAIDD RHANBARTH GOGLEDD CYMRU - DRAFFT 10 - 28

Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio, i gyflwyno i'r bwrdd y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol (REF) drafft ar gyfer Gogledd Cymru..

## 6. Y STRATEGAETH FUDDSODDI 29 - 32

Alwen Williams, Cyfarwyddwr Porffolio, i roi diweddariad i'r Bwrdd ynghylch y gwaith o ddatblygu strategaeth i roi sylw i'r buddsoddiad sydd ei angen ar gyfer y Cynllun Twf.

## 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau.

## 8. RHEOLI NEWID - DIWEDDARIAD

Adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau (adroddiad wedi'i gylchredeg i aelodau'r Bwrdd yn unig).

## 9. PROSIECT CANOLFAN PROSESU SIGNALAU DIGIDOL - ACHOS BUSNES LLAWN

Adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau a Stuart Whitfield, Rheolwr y Rhaglen Ddigidol (adroddiad wedi'i gylchredeg i aelodau'r Bwrdd yn unig).

# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU DYDD GWENER, 22 HYDREF 2021

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - Cadeirydd), Ian B.Roberts (Cyngor Sir y Fflint) a Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).

Ymgynghorwyr – Yr Athro Iwan Davies (Prifysgol Bangor), Dr Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndwr), Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo-Menai) ac Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes).

Prif Swyddogion – Iwan Davies (Cyngor Conwy), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych), Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) ac Annwen Morgan (Cyngor Sir Ynys Môn).

Swyddogion yn bresennol – Dafydd L. Edwards (Swyddog Cyllid Statudol – Awdurdod Lletya), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya), Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau), Sheryl Le Bon Jones (Uwch Swyddog Gweithredol), Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp - Corfforaethol a Phrosiectau) ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Dyfrig Siencyn a'r Cynghorydd Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi, 2021 fel rhai cywir.

## 5. CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2021/22 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2021)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp – Corfforaethol a Phrosiectau).

**PENDERFYNWYD**

**I. Derbyn a nodi adolygiad ail chwarter refeniw a chyfalaf Cyd-bwyllgor y Bwrdd**

**Uchelgais ar gyfer 2021/22.**

II. **Cydnabod derbyn a defnydd arfaethedig y £500,000 ar gyfer y grant Arloesi ar gyfer Datgarboneiddio drwy Ymchwil Busnesau i'r System Gyfan (WBRID), yn unol â'r llythyr dyfarnu cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2021.**

III. **Cymeradwyo'r defnydd o gronfa wrth gefn benodol wedi'i chlustnodi i ddal cyfraniadau llog a dderbynnir gan y partneriaid, i'w gosod yn erbyn y gost fenthyca sydd ei hangen i ariannu'r llif arian negyddol yn y dyfodol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nodwyd tanwariant a rhagwelir o £183,178 yn erbyn y gyllideb refeniw yn 2021/22. Mynegwyd y gellir trosglwyddo unrhyw danwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i'r gronfa wrth gefn sydd wedi'i chlustnodi.

Amlygwyd fod llithriad wedi bod ar y rhaglen gyfalaf sy'n golygu y bydd bellach yn rhedeg am dair blynedd ychwanegol hyd at 2028/29.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn adolygiad ariannol ar gyfer ail chwarter y flwyddyn. Mynegwyd fod yr adran yn amcanu tanwariant o £128 o filoedd ar y Swyddfa Rheoli Rhaglen. Eglurwyd fod hyn o ganlyniad i oedi wrth recriwtio i swyddi. Mynegwyd fod y pennawd Gwasanaethau Cefnogol yn dangos tanwariant o £7mil yn sgil tanwariant ar y gyllideb Yswyriant. Nodwyd fod hyn oherwydd bod Yswyriant y Bwrdd Uchelgais wedi'i ymgorffori o fewn polisïau Yswyriant Cyngor Gwynedd.

Eglurwyd fod tanwariant o £18 mil wedi ei amcangyfrif ar y pennawd Cyd-Bwyllgor, ac fod hyn yn sgil derbyn grant penodol gan Lywodraeth Cymru i ariannu rhai agweddau o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan ymgynghorwyr cyfreithiol.

O ran prosiectau nodwyd fod rhaid i'r gwariant ar y pennawd yma gael ei ystyried yn nghyd-destun y grant datgarboneiddio o hanner miliwn. Mynegwyd na dderbyniwyd y llythyr dyfarnu cyllid ar gyfer y grant hwn tan fis Mehefin 2021, ac felly ni chafodd ei gynnwys yn y gyllideb. Tynnwyd sylw at danwariant o £40mil ar y penawdau cefnogaeth gyfreithiol allanol a sicrwydd ac mae hyn yn sgil y llithriad ar y rhaglen gyfalaf.

Nodwyd fod cyfraniadau llog y partneriaid o £678 o filoedd yn adlewyrchu'r ffigyrau gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Hydref 2020 a Mawrth 2021, a gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r defnydd o gronfa wrth gefn penodol i roi'r arian hwn o'r neilltu i ariannu'r gost gyfartalog o fenthyca dros oes y cynllun twf. Eglurwyd unwaith y bydd cadarnad yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru bydd y cyfaniadau llog yn cael eu hailgyfrifo i adlewyrchu'r gost ddiwygiedig o fenthyca.

Mynegwyd fod ffynhonellau incwm ar gyfer 2021/22 yn cynnwys cyfraniadau partneriaid, Grant ESF, Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru, Grant Datgarboneiddio a'r gronfa wrth gefn. Nodwyd fod hyn yn gadael amcan sefyllfa ar gyfer 2021/22 yn danwariant o £183 o filoedd, a rhagwelir ar hyn o bryd y bydd balans o £507 o filoedd yn y gronfa wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

O ran yr adolygiad cyfalaf nodwyd yn wreiddiol eu bod yn rhagweld y byddai'r rhaglen gyfalaf yn rhedeg o 2021/22 hyd 2025/26 ond mynegwyd fod llithriad yn debygol ar rai o'r prosiectau a olygai y bydd y rhaglen yn rhedeg a dair blynedd ychwanegol. Nodwyd fod llithriad o £13.21miliwn yn 2021/22, £42.49 miliwn yn 2022/23 a £21.43miliwn yn 2023/24. Eglurwyd y caiff grant Cynllun Twf Gogledd Cymru ei ddefnyddio i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf yn 2021/22 a 2022/23 ac ni fydd angen benthyca'n allanol tan 2023/24.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid fod y sefyllfa yn gyffredinol yn foddhaol ac fod y tanwariant ynghyd â'r llithriad yn anochel gyda'r sefyllfa fel ac y mae hi. Nodwyd yn ôl ym mis Mai fod y Bwrdd wedi cymeradwyo y Ffurflen Flynyddol ac fod Archwilio Cymru wedi datgan fod y ffurflen yn un glan. Nodwyd fod sefyllfa y flwyddyn nesaf yn parhau yn ansicr.
- Diolchwyd i'r adran am eu holl waith.

## 6. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 2

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau.

**PENDERFYNIAD**

**Nodwyd Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i ddiweddaru.**

**Cymeradwywyd cyflwyno'r Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yngyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ym mis Rhagfyr 2020 bu i'r Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar Gytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r cynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf ar gyfer yr ail chwarter. Nodwyd fod ail adolygiad sicrwydd blynyddol y Cynllun Twf wedi ei gwblhau a cyflwynwyd gradd o 'Ambr-Gwyrdd' nodwyd dyma ail radd hyder cyflawni uchaf sydd ar gael ac yn welliant ar y gradd Ambr a dderbyniwyd yn 2020.

Mynegwyd fod diweddariad blynyddol cyntaf i Achos Busnes y Portffolio, sy'n ofyniad dan y Cytundeb Twf Terfynol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi'i gwblhau.

Nodwyd fod wyth prosiect yn adrodd yn goch ar hyn o bryd  yn sgil risigau i sgôp y prosiectau, neu oedi sylweddol i amserlenni'r prosiectau. Ychwanegwyd gan nad oes yr un Achos Busnes Llawn ar gyfer unrhyw brosiect wedi'i gymeradwyo ar hyn o bryd, ac mae'r unig wariant hyd yma yn sgil tynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad yw 1.5% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio.

Tynnwyd sylw ar 3 risg yn gofrestr risg sydd wedi cynnyddu ystod y chwarter, a oedd yn cynnwys capasiti partneriaid i ddarparu cynrychiolwyr i fyrddau prosiect ac anhawster recriwtio i swyddi gwag o fewn y PMO, Buddsoddiad y Sector Gyhoeddus ac amcanion gwario. Eglurwyd fod dau o'r rhain wedi codi yn sgil y ffaith bod nifer o geisiadau i newid prosiectau wedi eu hystyried. Amlygwyd fod dwy risg newydd wedi'u hychwanegu yn dilyn adroddiad sicrwydd proffilio.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Amlygwyd fod cynydd mewn prisiau deunyddiau yn effeithio ar gostau cynlluniau ond fod hyn wedi ei amlygu yn y gofrestr risg yn y chwarter diwethaf.
- Nodwyd y bydd arian ESF yn dod i ben ac amlygwyd pryder o ariannu staff ac eglurwyd fod angen lobio am y mater hwn yn rhanbarthol ac ar wahân ac efallai y bydd angen sefyll yn unedig fel Bwrdd.
- Mynegwyd fod yr Etholiad yn cael ei gynnal y flwyddyn nesaf ac fod angen i staff barhau gyda'r gwaith da. Eglurwyd yr angen i'r cynllun i barhau i fod yn hyblyg ac yn barod i addasu prosiectau os risigau yn codi.
- Esboniwyd yr angen i addasu teitl cynllun Hydrogen er mwyn bod yn fwy penodol a mynegwyd fod y tim yn edrych i mewn i hyn ar hyn o bryd a gofynnwyd am adroddiad pellach yn y cyfarfod nesaf.

Cyn cau allan y wasg a'r cyhoedd cymerwyd y cyfle i ddiolch i Brif Weithredwr Cyngor Sir Fflint, Colin Everett, am ei waith yn arwain y Bwrdd Uchelgais dros y blynyddoedd diwethaf ac am sicrhau eu bod yn glynu ar y weledigaeth.

## 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny). Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus, fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn â materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Cytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau.**

## 8. RHEOLI NEWID - PORTH CAERGYBI

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau).

**PENDERFYNWYD**

**Cymeradwywyd y cais i newid ar gyfer Porth Caergybi ac yn hysbysu Llywodraeth Cymru a'r DU fod newid i sgôp prosiect Cynllun Twf.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ym mis Rhagfyr 2020, fe gytunwyd ar y Cytundeb Twf ar gyfer Cynllun Twf y Gogledd. Nodwyd fod gan Gynllun Twf Gogledd Cymru broses rheoli newid yn ei lle i sicrhau bod newidiadau posib i sgôp y Cynllun Twf a'r prosiectau yn cael eu dal, eu hasesu a lle bo hynny'n berthnasol ei hystyried gan y Bwrdd.

Mynegwyd fod cais i newid yn ymwneud â phrosiect Porth Caergybi sydd yn un o chwe prosiect o fewn y rhaglen Tir ac Eiddo.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:30pm a daeth i ben am 3:45pm

**CADEIRYDD**

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**10 Rhagfyr 2021**

**TEITL:** Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru - Drafft

**AWDUR:** Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno i'r bwrdd y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol (REF) drafft ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'r REF ar gyfer Gogledd Cymru yn hyrwyddo datblygu economaidd cydweithredol ar draws y rhanbarth trwy weledigaeth gytûn a rhannu blaenoriaethau ar gyfer cyflawni ymhlith partneriaid rhanbarthol.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Argymell y drafft 'Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru' i'w fabwysiadau gan bob awdurdod lleol.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

## 4. CEFNDIR

4.1 Sefydlodd Cynllun Gweithredu Economaidd, Llywodraeth Cymru'r sylfaen ar gyfer gweithio rhanbarthol, gan gynnwys ymrwymiad i ddarparu llais rhanbarthol cryfach trwy fodel datblygu economaidd â ffocws rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys sefydlu timau rhanbarthol a datblygu Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol (REFs).

4.2 Mae datblygu REFs yn rhan hanfodol o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fodel datblygu economaidd â ffocws mwy rhanbarthol, gan gefnogi twf economaidd cynhwysol a chynaliadwy, sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a lleol, a chyfrannu at Nodau Lles Cymru.

4.3 Wrth ddatblygu'r REFs, rhaid ystyried yr adferiad sy'n ofynnol yn sgil pandemig Coronavirus, a'r dyheadau hir dymor ar gyfer y rhanbarthau.

4.4 Mae REFs wedi'u bwriadu fel cyfrwng i helpu i hyrwyddo cynllunio a darpariaeth ranbarthol gydweithredol ymhlith partneriaid sector cyhoeddus, preifat a trydydd. Bydd y cyflawni yn canolbwyntio ar un weledigaeth a rennir ar gyfer pob rhanbarth a'i chefnogi gan gyfres o flaenoriaethau ac egwyddorion rhanbarthol.

4.5 Bydd datblygu REFs yn allweddol wrth lywio a dylanwadu ar gyflawni blaenoriaethau cyllido Llywodraeth Cymru.

## 5. FFRAMWAITH ECONOMAIDD RHANBARTHOL

5.1 Er mwyn creu'r REF drafft cyntaf ar gyfer Gogledd Cymru, mae swyddogion o swyddfa ranbarthol Gogledd Cymru Llywodraeth Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi ymgymryd â chyfnod o ymgysylltu wedi'i dargedu ag ystod o randdeiliaid rhanbarthol allweddol i gyd-ddylunio'r dull hwn o ddatblygu economaidd yn seiliedig ar le.

5.2 Mae drafft cyntaf y REF, yn adeiladu ar waith sy'n bodoli eisoes, ac yn nodi'r blaenoriaethau a rennir ar gyfer y rhanbarth. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cyd-fynd â dyheadau Llywodraeth Cymru am economi llesiant sy'n gyrru ffyniant, sy'n amgylcheddol gadarn, ac sy'n helpu pawb i wireddu eu potensial.

5.3 Cyflwynir blaenoriaethau economi llesiant yn y REF o dan dair thema:

- Yr Economi Lles Cymdeithasol a Chymunedol
- Yr Economi Profiad
- Yr Economi Carbon Isel ac Allyriadau Isel

5.4 Mae'r blaenoriaethau'n hyblyg, a bydd yn caniatáu i'r rhanbarth addasu ac ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd a wynebir dros yr 20 mlynedd nesaf.

## 6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

## 7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

---

**ATODIADAU:**
Atodiad 1 – Y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol mewn Cyd-destun
Atodiad 2 – Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru – Drafft


---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

i. **Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**
Mae'r argymhelliad yn cael ei wneud I'r awdurdodau unigol a bydd angen iddynt sefydlu eu trefn craffu a chymeradwyo er symud y mater ymlaen.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**
Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

**Atodiad 1 – Y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol mewn Cyd-destun**



# Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru




## Drafft Terfynol i'w Gymeradwyo
## Rhagfyr 2021

**Cynnwys**

Rhagair y Gweinidog ........ 3
Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - Rhagair ........ 4
Cenhadaeth Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru ........ 5
Yr Economi Les ........ 7
Fframwaith Economaidd Rhanbarthol – Blaenoriaethau ........ 8
1. Yr Economi Lles Cymdeithasol a Chymunedol ........ 8
2. Yr Economi Profiad ........ 11
3. Yr Economi Carbon Isel ........ 13
Camau Nesaf ........ 16

## Rhagair y Gweinidog

[Testun i'w gynnwys]

**Vaughan Gething AS, Gweinidog Economi**

# Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - Rhagair

[Testun i'w gynnwys]

**Y Cyng Dyfrig Siencyn, Cadeirydd, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**

## Cenhadaeth Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru

Ein cenhadaeth drwy'r fframwaith hwn yw dechrau creu cyfleoedd arloesol i sicrhau ein bod yn diogelu ac yn gwella ein hamgylchedd naturiol tra hefyd yn caniatáu i gymunedau ffynnu. Adeiladu ar ein cryfderau a manteisio ar gyfleoedd lle maent yn ychwanegu gwerth, y tu hwnt i werth ariannol yn unig, i'r rhanbarth.

Mae Gogledd Cymru yn rhanbarth sydd â chyfoeth o briodoleddau. Mae pobl wedi bod yn ymwybodol o bwysigrwydd gogledd Cymru ers dechrau cynnar gwareiddiad. Mae wedi bod yn gartref i Dywysogion Cymru a llawer o frwydrau gwaedlyd, sydd wedi creu ymdeimlad pwerus o berthyn, treftadaeth ddiwylliannol a gwerthfawrogiad o'r tirwedd. Mae hyn wedi arwain at gyfoeth o lenyddiaeth ac economi amrywiol sydd wedi esblygu dros y canrifoedd.

Nid yw'r fframwaith yn ddogfen anhyblyg na thraddodiadol, mae'n darparu fframwaith i ganfod sut mae'r sector gyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn bwriadu cyflawni’r blaenoriaethau.

Caiff llwyddiant y REF ei fesur gan y camau gweithredu unigol sy'n dilyn ei chyhoeddi. Wrth wneud hynny, rhaid inni sicrhau ein bod yn cymryd camau clir i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir a chyfleoedd presennol a’r dyfodol i'r economi ranbarthol o ganlyniad i'r pandemig, ymadael â'r UE ac wrth gwrs y newid i net sero.

Mae'r REF, drwy ei flaenoriaethau, yn nodi llwybr i hybu cynhyrchiant a chyflymu llewyrch economaidd a chynhwysol cynaliadwy.

DIAGRAM - Rôl allweddol y REF:
1. Sut i ddefnyddio a blaenoriaethu ein hadnoddau unigol a chyfunol
2. Helpwch ni i ddeall sut i ofyn a defnyddio cyllid
3. Ysgogi newidiadau polisi – cynllunio, strydoedd mawr, treth twristiaeth ac ati

Mae'r blaenoriaethau'n hyblyg a byddant yn cael eu hadolygu'n barhaus, gan ein galluogi i addasu ac ymateb yn well i heriau a chyfleoedd deinamig y Rhanbarth. Mae'r blaenoriaethau wedi'u llunio yng nghyd-destun dull systemau cyfan o hwyluso datgarboneiddio'r economi, addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd a gwella gwydnwch rhwydweithiau ecolegol a bydd yn (nid ydynt mewn unrhyw drefn):

1. Sgiliau a Gweithlu
2. Buddsoddi mewn magnetau, hybiau, cadwyni cyflenwi, ymchwil a datblygu, arloesi ac Entrepreneuriaeth.
3. Cefnogaeth gytbwys i fuddsoddwyr cynhenid ac mewn fuddsoddwyr.
4. Iaith, diwylliant, lle a threftadaeth.
5. Economi Sylfaenol a sylfaen Micro / Busnes Bach a Chanolig (BBaCh) fywiog.
6. Grymuso cymunedau er budd cenedlaethau'r dyfodol.
7. Cysylltedd (trafnidiaeth a digidol).
8. Manteisio i’r eithaf yn y sector gyhoeddus.
9. Ynni carbon isel.
10. Diwydiant Bwyd a Diod.

Yn seiliedig ar ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymchwil gychwynnol (fel y gwelir yn dystiolaeth ategol), mae'r ddogfen hon cyflwyno blaenoriaethau sydd wedi esblygu o'r rhwystrau i weithgarwch economaidd a'r cryfderau sy'n bodoli eisoes. O dan arweiniad Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, mae'r Fargen Twf wedi darparu sail gref ar gyfer datblygu'r fframwaith. Bydd yn un o'r prif gyfryngau a ddefnyddir i gyflawni blaenoriaethau'r Fframwaith hwn ochr yn ochr â gwasanaethau allweddol Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, sefydliadau'r sector cyhoeddus megis AB ac AU ac wrth gwrs y sector preifat a'r trydydd sector.

[Map o ogledd Cymru gydag ystadegau allweddol]


## Yr Economi Les

Mae'r REF yn seiliedig ar egwyddorion economi Les. Mae'r Economi Les yn golygu mabwysiadu dull gwahanol o ddatblygu'r economi ar gyfer Gogledd Cymru.  Nid yw'n ymwneud â thwf economaidd ar unrhyw gost yn unig ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i ni newid ein ffocws o dwf yn unig, i ddiogelu a chefnogi cymunedau.

Mae hyn yn ymwneud â chydnabod achosion sylfaenol yr heriau sydd gennym yng Ngogledd Cymru, yn hytrach na'u hatgyweirio. Mae'n ymwneud â chreu cydraddoldeb a chaniatáu i gymunedau fod â'r hyder a'r gallu i fod yn gynaliadwy a chaniatáu i'r economi ffynnu yn hytrach na thyfu.

Yn y bôn, mae angen inni ddeall sut y bydd llwyddiant yn edrych ar gyfer Gogledd Cymru; ni ddylai fod yn ymwneud â CMC/GYC yn unig. Rôl y REF cyntaf hwn felly yw dylanwadu'n raddol ar y newid yn ein meddwl tuag at set ehangach o fesurau wedi'u gosod yn erbyn y blaenoriaethau ehangach megis yr argyfyngau hinsawdd a natur.

Mae'r REF, yn dilyn trafodaethau rhanddeiliaid ar draws y rhanbarth, wedi'i strwythuro o amgylch tair thema graidd:




Yn amlwg, mae'r rhain yn creu ffiniau artiffisial ac ni ddylid anwybyddu cymhlethdod y berthynas.  Crëwyd y rhain i ganiatáu ar gyfer dogfen ddarllenadwy ac mae'r diagram ar ddechrau pob thema yn dangos yr agweddau rhyngddibynnol sy'n gysylltiedig â'r maes hwnnw.

# Fframwaith Economaidd Rhanbarthol – Blaenoriaethau

## 1. Yr Economi Lles Cymdeithasol a Chymunedol

[Cynnwys gweithgareddau allweddol]
[Cynnwys ystadegau allweddol]

**Blaenoriaethau:**

1.1 Gweithio gyda'n gilydd fel rhanbarth, gan gydnabod bod y ffordd yr ydym yn cyflawni'r un mor bwysig â'r hyn a ddarparwn - drwy groesawu ffyrdd cydweithredol o weithio gallwn gynnal a chynyddu ein heffaith, er gwaethaf llai o adnoddau a chapasiti ar draws pob sector. Gan adeiladu ar ddull portffolio'r Fargen Dwf gan sicrhau cyfranogiad trawsffiniol, wth ystyried ar y cyd, bydd angen gweithredu ar unwaith ar:

- **Ariannu** - Deall ar y cyd, sut y gellir defnyddio elfennau unigol y cyllid yn fwy effeithlon i greu mewnfuddsoddiad hirdymor i'r rhanbarth a fydd yn cefnogi ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer y gadwyn gyflenwi gynhenid.
- **Tystiolaeth** - Nodi dull cydweithredol o gasglu tystiolaeth a dileu bylchau ar draws y rhanbarth i ddarparu tystiolaeth sylfaenol ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol a dulliau o fesur economi lwyddiannus a ffyniannus yng Ngogledd Cymru.
- **Sgiliau** - Datblygu ein dealltwriaeth o'r sgiliau sydd eu hangen, gan sicrhau'r sgiliau cywir ar gyfer gweithlu'r dyfodol sy'n darparu cyfleoedd a chyflog byw i bawb.
- **Caffael** - Creu proses gaffael gynaliadwy, drwy sicrhau bod caffael yn y sector cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i annog datgarboneiddio cadwyni cyflenwi yn ehangach. Gweithio gyda'n sefydliadau angori i sefydlu cyswllt cryf â chymunedau yn yr un ffordd ac y mae cwmnïau'n gweithredu (Trwydded Gymdeithasol i Weithredu). Gan sicrhau bod caffael yn y sector cyhoeddus yn sbarduno datblygiad cadwyni cyflenwi lleol dwfn a gwydn ac sy'n arwain at ganlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol cadarnhaol.
- **Newid yn yr Hinsawdd** - Cynnal sgyrsiau anodd i ddelio ag effeithiau newid yn yr hinsawdd a sicrhau ein bod yn cyrraedd ein targedau sero net tra hefyd yn darparu ar gyfer economi ffyniannus.
- **Diogelu Cymunedau** - cefnogi'r gwaith o gyflymu'r gwaith o adeiladu cartrefi gan gynghorau, cymdeithasau tai a datblygwyr preifat wrth sicrhau bod y rhain yn cael eu darparu er budd cymunedau lleol, gan ddefnyddio sgiliau a deunyddiau lleol lle bynnag y bo modd.
- **Gofal Cymdeithasol** - Cefnogi gwydnwch yr economi Gofal Cymdeithasol a'r gweithlu gan gydnabod bod gan y rhanbarth boblogaeth uchel o drigolion dros 75 oed yn ein cymunedau.
- **Cysylltedd digidol** - sicrhau bod gan bob rhan o'r rhanbarth y cysylltedd digidol sydd ei angen i weithio mewn byd rhithwir i ganiatáu cydraddoldeb i gael mynediad at swyddi.

- **Cysylltedd trafnidiaeth** – diogelu a gwella gwasanaethau i Iwerddon ac yn drawsffiniol i Loegr, ac i ganolbarth a de Cymru er mwyn sicrhau bod gennym fynediad at ddulliau trafnidiaeth gyhoeddus a lesol. Er mwyn galluogi cymunedau i deithio'n rhwydd yn y modd mwyaf effeithlon o ran carbon , tra hefyd yn cryfhau ein cysylltiad â gweddill Ewrop a'r byd.

1.2 Gwneud y mwyaf o effaith gwariant y gwasanaeth iechyd yn y rhanbarth.

1.3 Sicrhau prosiectau ychwanegol sy'n gysylltiedig â thechnolegau uwch newydd megis radioisotope meddygol, gan gydnabod y potensial ar gyfer twf mewn ymchwil iechyd yn yr ardal drwy ysgol Feddygol Gogledd Cymru.

1.4 Hyrwyddo Gogledd Cymru hyderus sydd ag ystod eang o gyfleoedd economaidd, gan gynnwys buddsoddiadau'r Fargen Dwf. Denu ein pobl ifanc i aros a darparu lle uchelgeisiol a deniadol i fyw ynddo, ar gyfer cyflogaeth fedrus sy'n talu'n dda ac i annog buddsoddiad.

1.5 I gefnogi adferiad cryf, rhaid i ni ddarparu cynnig mwy pwrpasol ac integredig i'r rhai sydd am ddechrau neu dyfu busnes yng ngogledd Cymru. Mae gan y rhanbarth ganran uchel o fusnesau bach a chanolig, gan gynnwys perchnogion busnes a'r hunangyflogedig sy'n wynebu heriau penodol ac sydd wedi cael llai o fynediad at gymorth y Llywodraeth. Dysgu o'r gwaith sydd wedi ei wneud ar y cyd ac adeiladu ar raglenni fel Arfor a Busnes Cymru.

1.6 Bydd angen partneriaethau cryf rhwng cymunedau, busnesau a chynghorau i alluogi canol trefi a phentrefi i fanteisio ar ailddiffinio rôl y stryd fawr leol drwy gefnogi a chaniatáu i fusnesau llai fod yn fwy cystadleuol, dod yn ganolfannau ar gyfer gweithio o bell ac amwynderau drwy sefydlu canolfannau cymunedol a all ddarparu gwasanaethau gwerthfawr a chreu gwasanaethau arloesol.

1.7 Gweithio gyda chenedlaethau'r dyfodol i ddeall yr hyn sydd ei angen arnynt mewn canol trefi, er mwyn sicrhau ein bod yn creu cyfleoedd i'r ieuenctid drwy ddarparu ar gyfer eu hanghenion a fydd yn medru dylanwadu arnynt i aros yn y rhanbarth wrth ddilyn a datblygu eu gyrfaoedd.

1.8 Sicrhau bod ystod o gyrsiau addysg bellach ac uwch ddwyieithog yn cael eu datblygu a’u cynnig. Caniatáu i fyfyrwyr ddatblygu gyrfaoedd sydd wedi'u gwreiddio yn y rhanbarth. Defnyddio'r gallu sgiliau cydweithredol cryf yn y rhanbarth, gan adeiladu ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil datblygiadau fel Ysgol Feddygol Gogledd Cymru, M-SParc ac AMRC Cymru.

1.9 Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i weithio'n rhithiol er mwyn creu cyfleoedd i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig gael gwaith heb fod angen teithio. Felly’n darparu llwyfan ar gyfer cyfleoedd digidol arloesol ar gyfer datblygu offer aml-iaith i alluogi defnyddwyr i ddefnyddio'r Gymraeg a bod y rhanbarth yn arweinydd byd-eang mewn technoleg rhyngwyneb aml-iaith.

1.10 I gefnogi adferiad cryf, rhaid i ni ddarparu cynnig mwy pwrpasol ac integredig i'r rhai sydd am ddechrau neu dyfu busnes yng ngogledd Cymru fel y rhanbarth â

chanran uchel o fusnesau bach a chanolig, gan gynnwys perchnogion busnes a'r hunangyflogedig sy'n wynebu heriau penodol ac sydd wedi cael llai o fynediad at gymorth gan y Llywodraeth. Dysgu oddi wrth ac adeiladu ar raglenni fel Arfor.

1.11 Bydd angen partneriaethau cryf rhwng cymunedau, busnesau a chynghorau i alluogi canol trefi a phentrefi i fanteisio ar ailddiffinio rôl y stryd fawr leol drwy gefnogi a chaniatáu i fusnesau llai fod yn fwy cystadleuol, dod yn ganolbwynt ar gyfer gweithio o bell ac amwynderau drwy sefydlu canolfannau cymunedol a all ddarparu gwasanaethau gwerthfawr a chreu gwasanaethau arloesol.

1.12 Gweithio gyda chenedlaethau'r dyfodol i ddeall yr hyn sydd ei angen arnynt o ganol ein trefi, er mwyn sicrhau ein bod yn creu cyfleoedd i'r ieuenctid ddarparu ar gyfer eu hanghenion i'w galluogi i aros yn y rhanbarth tra hefyd yn dilyn a datblygu eu gyrfaoedd.

1.13 Sicrhau bod ystod o gyrsiau addysg bellach ac uwch dwyieithog yn cael eu datblygu sydd ar gael i bobl ifanc yn y rhanbarth i ddilyn cyrsiau Cymraeg, gan eu galluogi i werthfawrogi'r rhanbarth ac aros yma i ddod o hyd i waith, gan adeiladu ar y cyfleoedd a ddaw o ddatblygiadau fel Ysgol Feddygol Gogledd Cymru, M-SParc ac AMRC Cymru.

1.14 Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i weithio'n rhithwir er mwyn caniatáu cyfleoedd i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig gael mynediad at waith heb yr angen i deithio ac felly darparu llwyfan ar gyfer cyfleoedd digidol arloesol ar gyfer datblygu offer aml-iaith i alluogi defnyddwyr i ddefnyddio'r Gymraeg a bod yn arweinydd byd-eang mewn technoleg rhyngwyneb aml-iaith.

## 2. Yr Economi Profiad

[Cynnwys gweithgareddau allweddol]
[Cynnwys ystadegau allweddol]

**Blaenoriaethau:**

2.1 Er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy'r economi brofiad, er mwyn diogelu cymunedau a chefnogi diwydiannau, mae angen i ni ymateb i'r materion pwysicaf ar y cyd:

- cefnogi cymunedau lleol i fanteisio a bod yn gyfrifol am y diwydiant profiad ac ymwelwyr mewn ffordd sydd o fudd i'r cymunedau hynny, gan weithio ar draws y rhanbarth a chyda rhanbarthau tebyg eraill ledled y DU i ddatblygu arfer gorau.
- sicrhau cynnig twristiaeth drwy'r flwyddyn, lle bo'n briodol, i greu cyfleoedd mwy cynaliadwy i'r gweithlu
- datblygu pibell lefel uwch o sgiliau amlieithog mewn lletygarwch, diwydiannau gwasanaeth, gweithgareddau awyr agored a rheoli digwyddiadau, gan arwain at rolau medrus ar gyfraddau cyflog uwch.
- datblygu strategaeth bwyd a diod, gan gynnwys strategaethau bwyd cymunedol, ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru, i dyfu graddfa, gwerth a chynhyrchiant ein busnesau yn ogystal â bod o fudd i'n pobl a'n cymdeithas.
- yn cyd-fynd â rhaglen Arloesi Bwyd Cymru, manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i sicrhau y gall ein sector bwyd a diod fod yn arweinwyr y DU drwy hyrwyddo a dathlu llwyddiant fel cenedl fwyd fyd-eang drwy gyrraedd y lefelau uchaf o gynaliadwyedd a bod gwaith teg yng Nghymru yn cael ei wobrwyo, ei glywed a'i gynrychioli gyda mwy o fusnesau yn ennill achrediad, ennill gwobrau ac ennill y safonau bwyd uchaf.
- cydweithio i geisio tystiolaeth i ddarparu dealltwriaeth gliriach o gyfleoedd economaidd yn y diwydiant chwaraeon a hamdden yn y dyfodol ar draws y rhanbarth. Datblygu map llwybr i sbarduno buddsoddiad i ddarparu adnoddau a newidiadau ar raddfa mewn cyfleusterau chwaraeon elît a chyfleusterau newydd, a thrawsnewid y ffordd y caiff chwaraeon a chyfleoedd corfforol lleol eu rheoli a'u darparu drwy sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Rhanbarthol Gogledd Cymru.
- cryfhau cyfleoedd i'r diwydiant creadigol ar draws y rhanbarth sy'n sicrhau cyfleoedd arloesol i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg ffynnu hyd yn oed yn fwy, gan sicrhau bod gan bob ardal fynediad at weithgareddau diwylliannol.

2.2 Gweithio gyda'n busnesau cynhenid i sicrhau eu bod mewn sefyllfa gref i elwa o'r economi ymwelwyr, gan roi'r sgiliau iddynt ddatblygu, creu cyfleoedd newydd yn y rhanbarth ac i ddiogelu cymunedau lleol a'u hamgylchedd lle mae'r gweithgareddau hyn yn digwydd.

2.3 Meddwl yn greadigol, drwy gyd-fynd â phrosiectau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, ar ddarparu cyfleoedd a chyfleusterau i bobl ifanc drwy sicrhau bod gan ganol ein trefi ddarpariaeth hamdden (gan gynnwys gyda’r nos) a all gystadlu ag ardaloedd eraill. Tra hefyd yn darparu ar gyfer gweithgaredd drwy gydol y flwyddyn, hyn i ddarparu ystod dewis i bobl ifanc, gan roi cyfle gwirioneddol i'r rhanbarth gadw ei weithlu yn y dyfodol.

2.4 Gwireddu manteision economaidd amgylchfyd cyhoeddus yn ein trefi, gan ganiatáu i breswylwyr ac ymwelwyr elwa o barciau a mannau agored, sgwariau a strydoedd gyda choed. Dangosodd y cyfnod clo pa mor hanfodol yw lleoedd o'r fath i'n lles fel lleoedd i ddianc yn ogystal â gwella'r amgylchedd naturiol a darparu ysgogiad economaidd.

2.5 Sicrhau bod unrhyw wariant sylweddol ar seilwaith neu weithgareddau diwylliannol yn treiddio i weithgareddau eraill yn y rhanbarth, gan wneud y mwyaf o effaith gwariant cyhoeddus.

2.6 Archwilio cyfleoedd i gymunedau gael rolau gweithredol wrth ehangu'r cynnig diwylliannol, gan adeiladu ar gyfleoedd sydd wedi'u creu mewn llawer o drefi/pentrefi ar draws y rhanbarth ac sy'n allweddol o ran cadw ein treftadaeth a'n llenyddiaeth yn fyw ac yn berthnasol.

## 3. Yr Economi Carbon Isel

[Cynnwys gweithgareddau allweddol]
[Cynnwys ystadegau allweddol]

**Blaenoriaethau:**

3.1 Cydweithio ar draws pob sector, yn enwedig y sector cyfleustodau, i greu Mapiau Llwybr Ynni Carbon Isel a Thwf Gwyrdd. Datblygu a gweithredu system ynni aml-fector resymol sy'n darparu dull cyson o fanteisio ar gyfleoedd mewn twf carbon isel a gwyrdd er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl i gymunedau lleol a sicrhau bod y bunt yn aros yn lleol.

- **Map Llwybr Hydrogen** - parhau i ddatblygu map llwybr i ddeall y dull gorau i ddarparu'r cyfle i ddefnyddio Hydrogen ar draws Rhanbarth Gogledd Cymru, gan wneud y mwyaf o'r arbenigedd a'r asedau sydd ar gael a'r manteision y gellid eu cael.
- **Ynni Carbon Isel** – Llywodraeth Cymru a Phartneriaid Rhanbarthol i baratoi cynllun gweithredu i gyflawni Strategaeth Ynni Gogledd Cymru, sy'n tynnu sylw at faint y cyfle economaidd a gyflwynir yn yr ymgyrch i sicrhau net sero.
- **Pwyntiau cerbydau trydan** - cydweithio i ddarparu rhwydwaith i sicrhau bod gan bob cymuned fynediad i'r seilwaith sydd ei angen arnynt.
- **Effeithlonrwydd ynni** - gwella effeithlonrwydd ynni tai'r rhanbarth a chyflymu'r broses o ddatgarboneiddio stoc adeiladau Gogledd Cymru a sicrhau newid sylweddol yn y ffordd y caiff cartrefi eu gwresogi a lefel eu heffeithlonrwydd ynni ar draws y rhanbarth

3.2 Cydweithio ar draws y rhanbarth i ddatblygu cadwyn gyflenwi gynaliadwy, sgiliau a seilwaith porthladdoedd i gefnogi'r diwydiant gwynt ar y môr yn y rhanbarth ac yn fyd-eang:

- **Ffrwd lanw** – gan adeiladu ar waith sydd eisoes yn digwydd i sicrhau y gall cwmnïau lleol fod yn gystadleuol i gefnogi'r diwydiant cynyddol hwn.
- **Amrediad llanw (morlyn)** - parhau i archwilio potensial y diwydiant hwn yng Ngogledd Cymru a sicrhau bod gennym y gadwyn gyflenwi yn barod i'w gefnogi.
- **Gwynt ar y môr** – gweithio gyda datblygwyr ynni gwynt sefydlog ar y môr i sicrhau ein bod yn creu cyfleoedd hirdymor cynaliadwy ar gyfer cadwyni cyflenwi a phorthladdoedd yn y rhanbarth, gan greu llwyfan cryf i gefnogi ynni gwynt sy’n arnofio ac ynni o donnau hefyd.

3.3 Mynd ar drywydd trawsnewid ynni cyfiawn, drwy gadw cyfoeth yn lleol a sicrhau bod gan ein cymunedau a'n sefydliadau cyhoeddus lais yn y ffordd yr ydym yn cynhyrchu ac yn arbed ynni.

3.4 Sefydlu ffyrdd y gellir cynhyrchu ynni ar safleoedd ac ôl-osod ar eiddo mewn ffordd sy'n adeiladu cyfoeth cymunedol, gan sicrhau bod busnesau a phobl leol yn elwa o'r swm a gaiff ei wario ar y cyfnod pontio ynni.

3.5 Ceisio cyfleoedd i gefnogi a buddsoddi yn yr economi carbon isel mewn lleoliadau, prosiectau a chyfleusterau allweddol yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys marchnata'r rhanbarth fel lleoliad o ddewis ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol ochr yn ochr â rhoi cymorth i gadwyn gyflenwi Cymru i gystadlu am waith gwaith ledled y DU a thramor ar gyfer:

- **Niwclear** (adeiladu a datgomisiynu newydd yn Wylfa a Thrawsfynydd)
- **Gwynt ar y môr** (gan gynnwys datgomisiynu),
- **Ynni morol** (ffrwd llanw ac ystod)
- **Hydrogen**
- **Porth Caergybi**
- **Gofod, awyrofod a moduro** (gweithgynhyrchu, ymchwil a datblygu a lleoliadau allweddol gan gynnwys clwstwr Glannau Dyfrdwy / Wrecsam, Llanbedr a'r Fali).

3.6 Gwneud y gorau o le Gogledd Cymru yn yr economi wybodaeth, gan gydnabod partneriaethau ag adnoddau megis Bwa Niwclear y Gogledd Orllewin, Optic Glyndwr ac M-Sparc, gan wella rhwydwaith o gyfleusterau ymchwil a datblygu a chwmnïau cadwyn gyflenwi sy'n ymestyn o Cumbria i Ogledd Cymru ac sy'n cwmpasu Swydd Gaerhirfryn, Manceinion Fwyaf, Swydd Gaer a Dinas Sheffield.

3.7 Newid cyfeiriad Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel (HVM) ar gyfer dyfodol ôl-Covid, ôl-Brexit a charbon isel drwy weithredu’r Fframwaith ar gyfer Dyfodol HVM, yn enwedig mewn perthynas â Diwydiant 4.0, technoleg ddigidol ac awtomeiddio, gan adeiladu ar ein buddsoddiad mewn Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch (AMRC) Cymru a datblygiad arfaethedig Canolfan Ymchwil Technoleg Uwch (ATRC). Bydd hyn yn hollbwysig o ran sicrhau cyfleoedd arloesol yng Ngogledd Cymru i leihau allyriadau drwy weithio gyda'r byd academaidd i ddefnyddio mwy o gynnwys wedi'i ailgylchu drwy ddull economi gylchol.

3.8 Gweithio'n rhanbarthol gyda'r cwmni datblygu Cwmni Egino Cyf i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar draws y rhanbarth ar gyfer niwclear ag o bosib mathau eraill o gynhyrchu ynni.

3.9 Mae llawer o rannau o Ogledd Cymru yn dioddef o gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus wael, sy'n effeithio ar fynediad trigolion i swyddi, addysg a hyfforddiant. Mae angen inni barhau i hyrwyddo teithio llesol, darparu cynlluniau diogelwch ar y ffyrdd ac annog pobl i ddychwelyd i drafnidiaeth gyhoeddus wrth i'r ddibyniaeth ar y car preifat dyfu. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i gael buddsoddiad mewn cysylltiadau trafnidiaeth strategol newydd ac i fynd at gyfleoedd i sicrhau newidiadau i ddulliau trafnidiaeth carbon is:

- **Trafnidiaeth lesol** - darparu dewis amgen gwirioneddol i gymunedau, gan gydnabod pwysigrwydd rôl y cymunedau yn hyn o beth, yn enwedig i newid ymddygiad cymdeithas.
- **Trafnidiaeth gyhoeddus** – gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn cynnig dewis amgen i'r car ar draws y rhanbarth yn ogystal â thrawsffiniol.

- **Rhwydweithiau beicio a cherdded** – adeiladu ar y gwaith sy'n digwydd i greu dewis amgen diogel ar draws y rhanbarth.

3.10 Mae angen inni ddatblygu diwydiant amaethyddol gwydn a llewyrchus, sy'n lleihau ei allyriadau carbon drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys datblygu gwell effeithlonrwydd o ran cynhyrchu da byw a chnydau, rheoli maetholion a chynyddu cynaliadwyedd asedau fferm, gan adeiladu ar weithgareddau cyfredol ac arfaethedig yng Nglynllifon a Llysfasi.

3.11 Gweithio gyda'r diwydiant amaethyddol i gefnogi arloesedd a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd cynhyrchion amaethyddol i sicrhau bod y diwydiant yn arwain o ran cynaliadwyedd.

3.12 Gweithio ar y cyd i weithredu newid systemig mewn allyriadau o ganlyniad i brynu nwyddau er mwyn sicrhau ein bod yn cadw adnoddau'n cael eu defnyddio cyhyd ag y bo modd ac yn dod o hyd i ddefnyddiau newydd ar gyfer adnoddau, gan sicrhau bod canolfannau cymunedol yn chwarae rhan allweddol a bod datgomisiynu yn ystyriaeth allweddol mewn unrhyw brosiect sy'n digwydd yn y rhanbarth ar draws pob sector.

3.13 Gweithio ar y cyd i wella'r ffordd rydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol drwy sicrhau bod unrhyw gyfleoedd yn y dyfodol yn adeiladu ac yn creu ecosystem gydnerth, gan greu camau gweithredu i'w gwella sy'n ategu'r broses o weithredu atebion technolegol, effeithlonrwydd adnoddau (gwneud y mwyaf o fywyd cynnyrch) a buddsoddi mewn atebion i gefnogi'r economi gylchol.

## Camau Nesaf

Y camau nesaf sydd angen digwydd ar unwaith, fydd sefydlu, drwy Grŵp Adfer yr Economi (a phartneriaid allweddol eraill), raglen gyflawni. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut yr ydym yn blaenoriaethu'r blaenoriaethau, a phwy sydd orau i arwain ar y pecynnau cyflenwi hynny, gan gydnabod a pharchu'r broses lywodraethu a chyflawni rhanbarthol bresennol.

Mae rhywfaint o'r gwaith hwn eisoes yn digwydd ac felly bydd angen inni gael gwell dealltwriaeth o'r holl sydd ar waith, y pecynnau ariannu o dan bob maes blaenoriaeth cyn creu meysydd gwaith newydd.

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
## 10 Rhagfyr 2021

**TEITL:** Y Strategaeth Fuddsoddi

**AWDUR:** Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Bwrdd ynghylch y gwaith o ddatblygu strategaeth i roi sylw i'r buddsoddiad sydd ei angen ar gyfer y Cynllun Twf. Mae angen buddsoddiad yn uniongyrchol i rai o brosiectau'r Cynllun Twf ond mae'r strategaeth hefyd yn cydnabod y cyfleoedd ehangach ar gyfer buddsoddiad yn y rhanbarth.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Nodi'r diweddariad ar y gwaith o ddatblygu strategaeth fuddsoddi.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i amlinellu o fewn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR**

4.1 Bob blwyddyn, mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cychwyn Adolygiad Porth annibynnol fel rhan o'i broses sicrwydd a llywodraethu.

4.2 Fe wnaeth Adolygiad Porth y Portffolio, a gynhaliwyd ym mis Awst 2021, gyflawni gradd hyder cyflawni o Ambr/Gwyrdd, sy'n cydnabod bod cyflawni'n llwyddiannus yn ymddangos yn debygol. Fodd bynnag, bydd angen sylw parhaus i sicrhau nad yw risgiau yn troi mewn i faterion mawr a fyddai'n bygwth cyflawni.

4.3 Daeth adroddiad y panel adolygu â phump argymhelliad ymlaen, gydag un o'r rheini yn nodi y dylid datblygu a mabwysiadu strategaeth ar lefel Portffolio er mwyn denu a sicrhau buddsoddiad sector preifat ac arall.

4.4 Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru'n seiliedig ar gyflawni brosiectau ar draws pum rhaglen a rhagwelir y bydd cyfanswm y gwariant cyfalaf hyd at £1.1 biliwn (prisiau 2020/21).

4.5 O'r cyfanswm hwn, mae £240 miliwn wedi'i ymrwymo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, disgwylir i £179.2 miliwn o gyfalaf ychwanegol ddod o ffynonellau sector cyhoeddus eraill a bydd £722 miliwn yn cael ei ymrwymo gan y sector preifat. Ar y cyd, bydd y buddsoddiad yn cyfrannu at dwf economaidd y rhanbarth dros dymor o ddeg i bymtheg mlynedd.

4.6 Y prif lywiwr ar gyfer yr holl brosiectau o fewn y Cynllun Twf yw cyflawni buddion economaidd a chymdeithasol i'r Gogledd yn unol â'r deilliannau strategol a nodir yn achos busnes y portffolio.

4.7 Mae'r Cynllun Twf yn ceisio gwneud y mwyaf o fuddsoddiad ar draws y portffolio i gyflawni twf economaidd cynaliadwy ar gyfer y Gogledd.

4.8 Mae buddsoddiad wedi'i dargedu at y sectorau sy'n bwysig yn strategol. drwy bum rhaglen y portffolio mewn dau gategori;

a. Y rheini sy'n cynyddu gwerth sectorau twf uchel
- Rhaglen Ynni Carbon Isel
- Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel
- Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth

b. Y rheini sy'n mynd i'r afael â'r rhwystrau allweddol i dwf
- Rhaglen Tir ac Eiddo
- Rhaglen Cysylltedd Digidol

4.9 Cyflwynwyd drafft cychwynnol i'r Bwrdd Portffolio ar 26 Tachwedd i'w ystyried. Gofynnodd y Bwrdd Portffolio am amser ychwanegol i ystyried a rhoi mewnbwn i'r ddogfen a gwnaeth gais am fersiwn wedi'i ddiweddaru gael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr.

## 5. Y STRATEGAETH FUDDSODDI

5.1 Fe wnaeth Achosion Busnes y Portffolio a'r Rhaglenni nodi'r cyllid a'r buddsoddiad sydd eu hangen ym mhrosiect y Cynllun Twf. Darperir dadansoddiad yn Nhabl 1.1

Tabl 1.1 Dadansoddiad Buddsoddi Cyfalaf

| Rhaglen | Buddsoddiad Cynllun Twf (£m) | Buddsoddiad Sector Cyhoeddus Arall (£m) | Buddsoddiad Sector Preifat (£m) | Cyfanswm Buddsoddiad Cyfalaf (£m) |
|---|---|---|---|---|
| Digidol | 37.0 | 0.0 | 0.4 | 37.4 |
| Carbon Ynni Isel | 86.4 | 138.4 | 441.7 | 666.5 |
| Tir ac Eiddo | 79.1 | 1.9 | 274.4 | 355.4 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch | 13.0 | 26.4 | 0.0 | 39.4 |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | 24.5 | 12.4 | 4.5 | 41.4 |
| GROWTH DEAL TOTAL | **240.0** | **179.1** | **721.0** | **1,140.1** |

5.2 Mae'r strategaeth yn cydnabod yr her i ddenu buddsoddiad yn uniongyrchol i brosiectau'r Cynllun Twf. Mae hefyd yn cydnabod y bydd buddsoddiad y Cynllun Twf yn gwella isadeiledd y rhanbarth, gan felly greu cyfleoedd buddsoddi mwy apelgar ar gyfer y sector busnes ac amlygu ein cryfderau a'n natur gystadleuol fel rhanbarth.

5.3 Nod y strategaeth yw casglu data, mewnwelediad a gwybodaeth a fydd yn galluogi ymagwedd ranbarthol gyd-gysylltiedig i ddenu buddsoddiad.

5.4 Mae'r strategaeth ddrafft yn nodi saith amcan allweddol i fynd i'r afael â'i nodau'n effeithiol ac annog cydweithio rhanbarthol a cheisio adnabod cyfleoedd a bygythiadau posib sy'n gysylltiedig â sicrhau buddsoddiad.

| AMCANION STRATEGAETH BUDDSODDI | |
|---|---|
| Amcan 1 | Cynnal astudiaeth dadansoddi ymchwil buddsoddi. |
| Amcan 2 | Sefydlu Grŵp Buddsoddi Rhanddeiliaid yn y sector Preifat-Cyhoeddus i yrru'r cyfleoedd buddsoddi ymlaen. |
| Amcan 3 | Dyfeisio, mabwysiadu a gweithredu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu i ysgogi buddsoddiad yng Ngogledd Cymru. |
| Amcan 4 | Comisiynu prosbectws buddsoddi yng Ngogledd Cymru sy'n cyfleu neges glir a chymhellol i hyrwyddo ac annog buddsoddiad. |
| Amcan 5 | Cytuno ar egwyddorion buddsoddi yn y Cynllun Twf. |
| Amcan 6 | Creu cronfa wybodaeth o offer i gynorthwyo gyda'r broses fuddsoddi. |
| Amcan 7 | Datblygu fframwaith buddsoddwyr. |

5.5 Bydd cyflawni'r amcanion hyn yn llwyddiannus yn sicrhau y bydd ymagwedd gydlynol gwybodus i sicrhau'r buddsoddiad sydd ei angen.

5.6 Bydd y PMO yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid rhanbarthol i adeiladu ar yr ymagwedd sydd wedi'i hamlinellu a gwahoddiad a derbynnir adborth gan y Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Cyflawni Busnes.

5.7 Bydd y PMO yn darparu diweddariad ar ddatblygu Strategaeth Fuddsoddi i Fwrdd Llywodraeth y DU/LlC ar y Cyd ar 14 Rhagfyr fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol.

## 6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r diweddariad yn yr adroddiad hwn, fodd bynnag, dylid nodi y bydd angen cyllideb ar gyfer cyflawni rhai o'r amcanion allweddol.

6.2. Mae'r Prosbectws Adfer yn Sgil Covid ar gyfer y Gogledd a gyflwynwyd yn ddiweddar i Lywodraeth Cymru yn cynnwys gofyniad o £25K i ddatblygu prosbectws buddsoddi ar gyfer y Gogledd.

6.3. Caiff y goblygiadau ariannol llawn eu hystyried gan y Cyfarwyddwr Portffolio wrth i waith i ddatblygu a chyflawni'r strategaeth fuddsoddi fwrw ymlaen.

6.4. Dylid nodi bod sicrhau'r buddsoddiad sydd ei angen yn sylfaenol i gyflawni'r Cynllun Twf. Gallai methu cyflawni amcanion gwariant y portffolio arwain at oblygiadau ariannol ar gyfer y rhanbarth fel y nodir yn y cytundeb Dyfarnu Cyllid gyda Llywodraeth Cymru.

## 7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol yn uniongyrchol o gymeradwyo’r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn, fodd bynnag, gallai methu cyflawni strategaeth fuddsoddi gael goblygiadau ar gytundebau Dyfarnu Cyllid yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru.

---

**ATODIADAU:** Dim

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

i. **Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**
Cadarnhaf ran 6.1 o’r adroddiad, sef fod dim ymhlygiadau ariannol yn codi'n uniongyrchol o dderbyn y diweddariad yma. Fodd bynnag, fel mae rhan 4.4 – 4.5 o’r adroddiad yn nodi, bydd angen sicrhau cyfanswm £722 miliwn o fuddsoddiad sector breifat i mewn i rai prosiectau unigol er mwyn cyflawni'r Cynllun Twf £1.1 biliwn, a bydd angen adnoddau ar gyfer cyflawni rhai amcanion. Fel mae rhan 6.3 o’r adroddiad yn nodi, wrth iddi ddatblygu'r strategaeth fuddsoddi gyffredinol, bydd y Cyfarwyddwr Portffolio yn adnabod yr ymhlygiadau ariannol er mwyn cyfarch yr her sylweddol yma.